

Tasglu ar gyfer Modelau Cyflenwi

Cais am Dystiolaeth

Roedd argymhelliad trosfwaol yr adroddiad *Ymchwiliad i waith athrawon cyflenwi*¹ gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried amrywiaeth o opsiynau ar gyfer cyflogi athrawon cyflenwi.

Fel rhan o'r ymateb i'r adroddiad hwn, cafodd Tasglu ar gyfer Modelau Cyflenwi ei greu i edrych ar fodelau cyflenwi posibl ar gyfer darparu gwasanaeth athrawon cyflenwi yng Nghymru. Mae'r Tasglu'n awyddus i weithio gyda rhanddeiliaid er mwyn ymchwilio i syniadau ac awgrymiadau ymarferol ar gyfer opsiynau darparu a fyddai'n bodloni'r gofynion isod (fel y'u nodir yng nghylch gorchwyl y Tasglu).

Mae cylch gorchwyl y Tasglu'n adlewyrchu casgliadau adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a disgwylir i unrhyw opsiynau a gyflwynir gan y Tasglu wneud y canlynol:

- Nodi a hwyluso adnodd addysgu hyblyg;
- Sicrhau system gyflogau sy'n deg, yn gyson ac yn dryloyw ar gyfer athrawon cyflenwi ledled Cymru;
- Darparu dull gweithredu strwythuredig a ffurfiol sy'n sicrhau bod athrawon cyflenwi yn cael manteisio ar gyfleoedd datblygu proffesiynol a phrosesau rheoli perfformiad, gan gynnwys gweithdrefnau disgyblu a chwyno;
- Sicrhau bod ysgolion yn gallu dod o hyd i athrawon o ansawdd uchel sy'n gallu cynnig cysondeb o ran darparu dysgu o safon;
- Cefnogi athrawon cyflenwi sydd newydd gymhwyso ac sy'n ymgymryd â swydd tymor byr i allu dangos yn llawn eu bod yn bodloni'r safonau proffesiynol ar gyfer athrawon;
- Darparu gwybodaeth reoli gywir o ran costau, lefelau absenoldeb, a phatrymau cyflogaeth dros dro;
- Cynnig gwerth am arian;
- Lleihau'r baich gweinyddol a biwrocraidaidd ar benaethiaid;
- Ystyried yr egwyddorion sy'n sail i *Modelau darparu amgen i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus : Cynllun Gweithredu*
- Bodloni'r gofynion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Dylai'r opsiynau sicrhau dull gweithredu cyson ar gyfer darparu gwasanaeth cyflenwi ledled Cymru, er mwyn hwyluso deilliannau positif i'n holl ddysgwyr, gan eu diogelu ar yr un pryd

Byddai'r Tasglu yn ddiolchgar pe gallech ddefnyddio'r ffurflen isod i gyflwyno eich sylwadau. Mae'r Tasglu'n agored i ystyried modelau newydd posibl ar gyfer darparu gwasanaeth athrawon cyflenwi, yn ogystal â modelau sydd

¹ *Ymchwiliad i waith athrawon cyflenwi*, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (2015)

eisoes ar waith mewn mannau eraill. Mae'n awyddus i gymharu manteision y gwahanol fodolau sy'n cael eu hawgrymu.

A fyddech cystal â darparu gwybodaeth am unrhyw fodolau cyflenwi, sydd naill ai ar waith ar hyn o bryd, neu sy'n fodolau newydd posibl yr hoffech eu hargymell i'r Gweithlu eu hystyried yn fanylach. Cewch gynnig manylion trefniadau masnachol, trefniadau awdurdodau lleol, trefniadau cydweithredol lleol, neu unrhyw fodel arall a fyddai o gymorth ac o fantais i'r sector addysg yng Nghymru.

Brasolwg ar fodel ar gyfer darparu gwasanaeth athrawon cyflenwi

(Cofiwch gynnwys manylion ynghylch sut mae'r model yn gweithredu, enw'r model, a lle mae ar waith ar hyn o bryd os yw hynny'n berthnasol, gan gynnwys unrhyw ddolenni at wybodaeth a manylion cyswllt).

Er mwyn darparu system sy'n mynd i'r afael â'r problemau niferus iawn a adnabuwyd dros y blynyddoedd diwethaf mewn amryw o adroddiadau (gan Estyn, Swyddfa Archwilio Cymru, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus), mae UCAC yn argymhell system â'r nodweddion canlynol:

- yn sicrhau mynediad llawn i **dâl ac amodau gwaith statudol athrawon** ysgol yng Nghymru (ar hyn o bryd, wedi'u nodi yn Adran 44.1 o'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2015-16, a'r polisiau tâl wedi'u hargymell i ysgolion gan y 4 consortiwm rhanbarthol) gan gynnwys mynediad at y **Cynllun Pensiwn Athrawon** (hynny yw, rhaid sicrhau bod y cyflogwr yn un sy'n gydnaws ag aelodaeth o'r Cynllun Pensiwn Athrawon)
- yn cael ei gynllunio, o ran isadeiledd a buddsoddiad, ar lefel genedlaethol er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru
- yn cael ei weithredu ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu Awdurdod Lleol; os dewisir unrhyw lefel islaw cenedlaethol, rhaid sicrhau bod modd croesi ffiniau'n gwbl ddiraffferth heb fiwrocratiaeth ychwanegol i'r athrawon na'r ysgolion
- yn gwarantu datblygiad proffesiynol parhaus cyson o safon uchel

Rydym yn argymhell:

- system ar-lein, gyda
 - athrawon sy'n chwilio am waith cyflenwi yn cofrestru (gan gynnwys datgan cymwysterau perthnasol, prawf o gofrestrriad gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, gwiriad System Datgelu a Gwahardd (DBS), a gwybodaeth berthnasol arall, er enghraifft, am arbenigedd, profiad ac argaeledd o ran amser ac o ran lleoliad) ac yn diweddarau eu manylion eu hunain
 - ysgolion yn cofrestru i gael mynediad rhwydd i'r system i chwilio am opsiynau ac i fwcio athrawon yn y fan a'r lle ('real time')
 - datblygiad proffesiynol parhaus drwy ysgol unigol yn achos cytundebau tymor hir; a thrwy'r consortia rhanbarthol fel arall

- Awdurdodau Lleol yn gyflogwyr

Mae system NISTR, yng Ngogledd Iwerddon, yn cynnig man cychwyn da iawn ar gyfer trafodaethau.

Manteision *(Rhestrwch yr holl fanteision perthnasol, gan gynnwys manteision i'r ysgolion, i'r athrawon cyflenwi, ac i'r dysgwyr. A yw'r staff cyflenwi'n cael y cyfle i elwa ar brofiadau dysgu proffesiynol a threfniadau cyflog teg, ac a ydynt yn cael dangos cynnydd ar draws y Safonau Addysgu Proffesiynol ac ati? A yw'r model yn bodloni'r gofynion a nodir uchod?)*

Manteision i'r ysgolion

- trefnu athrawon cyflenwi'n ddiffwdan; peidio gorfod gwneud cyfres o alwadau ffôn a pheidio gorfod negodi gydag asiantaethau - llai o faich gweinyddol a biwrocraidd
- un ffynhonnell ganolog ar gyfer pob athro cyflenwi, ac felly fwy o debygolrwydd o allu dod o hyd i'r arbenigedd angenrheidiol (gan gynnwys y gallu i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg), yn hytrach na bod yr arbenigedd wedi'i rannu dros nifer fawr o asiantaethau ac unrhyw ysgol unigol ond yn defnyddio llond llaw ohonynt
- sicrwydd bod athrawon cyflenwi'n derbyn tâl ac amodau gwaith teg, cyson a thryloyw; ar y naill law, peidio gorfod poeni am 'siopa o gwmpas' am y 'fargen' orau, nac ar y llaw arall poeni bod y cyflog yn isel a'r telerau'n wael
- dim ond yn gorfod cofrestru gydag un corff – llai o faich gweinyddol a biwrocraidd
- system sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg

Manteision i'r athrawon cyflenwi

- tâl ac amodau gwaith sicr, teg, cyson a thryloyw
- mynediad at y Cynllun Pensiwn Athrawon
- eglurder o ran taliadau Yswiriant Gwladol a threth incwm
- mynediad at ddatblygiad proffesiynol parhaus
- sicrwydd ynghylch prosesau Rheoli Perfformiad, a gweithdrefnau disgyblu a chwyno
- gwell cychwyn gyrfa ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwysu, o ran tâl ac amodau gwaith, datblygiad proffesiynol parhaus, rheoli perfformiad ac ati - a llai o debygolrwydd o'u colli o'r proffesiwn yn gyfan gwbl
- sefyllfa well ar gyfer y sawl sy'n dychwelyd i'r gweithlu ar ôl toriad gyrfa
- cael bod yn rhan lawn a chydadd o'r proffesiwn dysgu, yn hytrach na chael eu gwerthu a'u trin fel 'nwyddau' ar y farchnad - yn uno'r proffesiwn yn hytrach na'i rannu
- bod darpariaethau ynghylch lles a chydbwysedd bywyd/gwaith yn

berthnasol ac yn cael eu parchu

- dim amodau cyfyngu, a rhyddid i dderbyn gwaith tymor hir os bydd cyfle'n codi
- amddiffynfa posib rhag y camddefnydd o gytundebau tymor byr
- tâl salwch a thâl gwyliau (o bosib yn elfen o fewn y tâl dyddiol)
- dim ond yn gorfod cofrestru gydag un corff
- system sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg

Manteision i'r dysgwyr

- athrawon cyflenwi sy'n cael eu trin yn deg yn fwy tebygol o ddarparu safon uchel o addysg
- athrawon cyflenwi yn ddarostyngedig i'r un cyfundrefnau o ran safonau proffesiynol a datblygiad proffesiynol yn arwain at yr un disgwyliadau a'r un cyfleoedd o ran darparu safon uchel o addysg

A yw'r staff cyflenwi'n cael y cyfle i elwa ar brofiadau dysgu proffesiynol?

A yw'r staff cyflenwi'n cael y cyfle i elwa ar drefniadau cyflog teg?

A ydynt yn cael dangos cynnydd ar draws y Safonau Addysgu Proffesiynol ac ati?

- Ydyn

Manteision eraill

- modd monitro'r defnydd o athrawon cyflenwi gan ddarparu'r cyfle (yn unol ag amryw o argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru) i:
 - adnabod patrymau absenoldeb a dadansoddi tueddiadau, er mwyn cynllunio'n fwy effeithiol a chyson at y dyfodol
 - bwydo mewn i ddatblygiadau polisi ehangach
 - datblygu polisiau er mwyn sicrhau cysondeb ac arfer dda, er enghraifft i reoli'r defnydd o gytundebau tymor byr
- gwell gwerth am arian, er bod y costau'n debygol o fod yn uwch, oherwydd:
 - y gwelliant tebygol yn safon y dysgu
 - y tebygolrwydd uwch o allu dod o hyd i'r arbenigedd angenrheidiol
 - cynnydd yn nibynadwyedd y cyflenwad athrawon
- pob athro dan yr un gweithdrefnau o ran Rheoli Perfformiad, disgyblu ac ati
- cydymffurfiaeth â'r 4 rhag-amod yn nogfen Modelau Darparu Amgen i Ddarparu Gwasanaethau Cyhoeddus: Cynllun Gweithredu
- cydymffurfiaeth â'r egwyddorion perthnasol yn nogfen Modelau Darparu Amgen i Ddarparu Gwasanaethau Cyhoeddus: Cynllun

Gweithredu

- defnyddio arian cyhoeddus fel buddsoddiad o fewn y gwasanaeth cyhoeddus, yn hytrach na gwariant trwy gwmnïau preifat sy'n tanseilio tâl ac amodau gwaith, a safonau addysgol
- helpu i osgoi anghydraddoldeb tâl rhwng dynion a menywod, gan fod menywod yn fwy tebygol o fod yn gweithio'n rhan amser, o bosib ar gytundebau byrdymor (gan gynnwys ar ôl toriad gyrfa) - ac yn aml trwy asiantaethau ar hyn o bryd
- bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran creu:
 - Cymru lewyrchus (cymdeithas arloesol, gynhyrchol; sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgiedig mewn economi sy'n ...cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas)
 - Cymru gydnerth (cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd)
 - Cymru iachach (cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol)
 - Cymru sy'n fwy cyfartal (galluogi pobl i gyflawni eu potensial)
 - Cymru ...lle mae'r Gymraeg yn ffynnu (cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod...[y] Gymraeg)
- model digon hyblyg i barhau petai'r pŵer dros dâl ac amodau gwaith athrawon yn cael ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru
- byddai canoli a chysoni'r prosesau a'r telerau yn galluogi Llywodraeth Cymru a/neu awdurdodau lleol i ddatblygu polisiau ar reoli trefniadau cyflenwi sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod cynnydd dysgwyr yn cael ei gynnal ac adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol (yn unol ag argymhellion 2a a 2b Swyddfa Archwilio Cymru)

Anfanteision (*Rhestrwch unrhyw anfanteision yr ydych yn gwybod amdanynt, o ran gweithredu'r math hwn o fodel, sef anfanteision gwirioneddol a phosibl*)

Gweler isod o dan 'Costau'.

Costau (*Nodwch unrhyw gostau yr ydych yn gwybod amdanynt, gan gynnwys costau gweinyddu'r model, costau cyflogi athrawon cyflenwi, ac argostau ac ati; ynghyd ag unrhyw opsiynau posibl ar gyfer lleihau costau*)

- buddsoddiad cychwynnol i adeiladu/prynu/addasu'r system ar-lein
- ymgyrch cyhoeddusrwydd cychwynnol i hysbysu athrawon o'r system newydd

- costau gweinyddol – uwch i gychwyn, a chyson (ond nid uchel) wedyn ar gyfer cofrestru athrawon, gan gynnwys y gwiriadau priodol (ddim yn glir ar hyn o bryd faint o waith fyddai ymhlyg yn y dasg hon, ac faint allai fod yn weddol awtomatig); er mwyn ceisio cadw costau'n is, ac osgoi dyblygu, gallai fod yn werth ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio capasiti a systemau Cyngor y Gweithlu Addysg, gan eu bod yn dal yr wybodaeth angenrheidiol ynghylch cofrestru yn ogystal â gwiriadau DBS – mae cydweddiad naturiol fan hyn
- costau uwch am fod athrawon yn cael eu talu ar gyfraddau statudol yn hytrach na chyflogau isel iawn (ond gwell gwerth am arian); taliadau yswiriant gwladol a chyfraniadau pensiwn

Elfennau rhyngddibynnol *(Sut byddai'r model yn hwyluso'r diwygiadau addysg ehangach y bwriedir eu cyflwyno yng Nghymru?)*

- ymrwymiad at ddatblygiad proffesiynol parhaus yn golygu bod athrawon cyflenwi yn llawer fwy tebygol o fod yn gyfarwydd â'r diwygiadau sylweddol a phwysig sy'n digwydd yn ein system addysg ar hyn o bryd, yn bennaf oll y broses o ddiwygio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu – gan gynnwys y Fframwaith Cymhwysedd Digidol
- gydag athrawon yn gyflogedig gan Awdurdodau Lleol, byddent yn ddarostyngedig i bolisiâu ehangach er enghraifft Rheoli Perfformiad a Safonau Proffesiynol
- gyda threfn newydd, a rhagor o fonitro patrymau cyflenwi, efallai y byddai'n fwy tebygol bod Llywodraeth Cymru'n cymryd i ystyriaeth y gofynion (y costau, a'r goblygiadau o ran safonau addysgol) ar ysgolion o ran cyflenwi sydd ynghlwm wrth unrhyw ddatblygiadau polisi newydd, er enghraifft mae gwaith yr ysgolion arloesi ar hyn o bryd yn rhoi pwysau aruthrol i ryddhau athrawon, ac felly'n cynyddu'r angen am gyflenwi

Unrhyw sylwadau eraill

Mae UCAC yn credu'n gryf iawn bod angen gweithredu ar fyrder i wella'r sefyllfa mewn perthynas â chyfundrefnau cyflenwi. Mae digonedd o ymchwil ac argymhellion wedi'u gwneud, ac ni fyddem am weld oedi pellach er mwyn cynnal rhag o ymchwiliadau y tu hwnt i waith y Tasglu.

Gwelwn gyfle gyda sefydlu'r Tasglu i wneud newidiadau pellgyrhaeddol, gyda phwyslais ar gynaliadwyedd, cyfiawnder cymdeithasol, a safonau addysgol uchel a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r gyfundrefn er budd disgyblion ac athrawon Cymru.